# Sefydlu a rheoli cysylltiadau â'r gymuned ehangach

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sefydlu cysylltiadau â grwpiau, sefydliadau a chymunedau y mae'r Sector Cyfiawnder yn gweithio oddi mewn iddynt. Nid yw hynny'n golygu'r 'Gymuned Gyfiawnder' yn unig, nac wedi'i fwriadu'n unig ar gyfer cysylltu â 'grwpiau anodd eu cyrraedd'. Mae cymunedau'n cyfeirio at unrhyw un sydd â diddordeb neu fudd yng ngwaith y Sector Cyfiawnder. Nod y safon yw annog rheolwyr ar draws y Sector Cyfiawnder i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn gweithio gyda hwy ac yn eu plith. Nid yw'r safon yn golygu datblygu strategaeth gyfathrebu; yn hytrach mae'n pwysleisio'r angen am gytuno ar nodau ac amcanion ymgysylltu â chymunedau ehangach a pha ganlyniadau a ddymunir.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sefydlu gweledigaeth glir a strategaeth ar gyfer ymgysylltu â chymunedau ehangach
2. gweithio gyda chydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol i ddatblygu a chytuno ar y strategaeth a'i gweithrediad
3. nodi a chytuno ar ddulliau a sianeli priodol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau ehangach
4. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau o fewn y sefydliad er mwyn hyrwyddo a datblygu strategaethau ymgysylltu
5. nodi ac ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau yn y gymuned, gan sicrhau eu hymrwymiad i ddatblygu ymgysylltiad cymunedol
6. gweithio gyda phartneriaid i greu cysylltiad â sefydliadau cymunedol a chytuno ar broses ymgynghori ystyrlon a'i rhoi ar waith
7. defnyddio gwybodaeth i nodi anghenion a disgwyliadau cymunedau a gwella ymgysylltiad
8. defnyddio dulliau a chyfryngau cyfathrebu priodol i hybu ymwneud y gymuned gyfan â datblygu perthnasoedd cadarnhaol
9. hyrwyddo diwylliant o hybu parch at amrywiaeth a gosod gwerth ar wahaniaethau diwylliannol o fewn y sefydliad, i wella'r perthnasoedd gyda chymunedau
10. gweithio gyda phartneriaid o fewn y sefydliad ac yn y cymunedau ehangach i ganfod camau gweithredu a fydd yn helpu cymunedau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r sector a meithrin hyder y cyhoedd
11. sefydlu a chynnal partneriaethau a rhwydweithiau i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda grwpiau a chymunedau
12. gwirio bod camau gweithredu a gweithgareddau'n dilyn arfer gorau o ran cydraddoldeb, parch at amrywiaeth a gosod gwerth ar wahaniaethau diwylliannol
13. adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau i wella'r ymgysylltu â'r cymunedau ehangach
14. nodi meysydd lle gallai newid strategaethau wella ymgysylltiad cymunedau
15. gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i roi newidiadau ar waith i wella ymgysylltiad cymunedau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth sy'n cael ei olygu gan gymunedau ehangach yng nghyd-destun eich sefydliad eich hun
2. beth mae'r sefydliad yn ceisio'i gyflawni trwy sefydlu a chynnal cysylltiadau â'r cymunedau ehangach
3. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i wella ymgysylltiad cymunedol
4. pwy yw'r partneriaid posibl a sut mae ymgysylltu â nhw
5. pam mae'n bwysig bod unrhyw ymgynghori â chymunedau ehangach yn gynhwysol ac yn ystyrlon a ffyrdd o ddangos hynny
6. y diwylliannau a'r credoau gwahanol mewn cymunedau ehangach a pham mae'n bwysig eu deall
7. sut gall diwylliannau a chredoau effeithio ar deimladau ac ymddygiad cymuned
8. pwysigrwydd hyrwyddo arfer gorau a'i roi ar waith yng nghyswllt cydraddoldeb, parch at amrywiaeth a gosod gwerth ar wahaniaethau diwylliannol
9. sut mae sefydlu a chynnal sianeli ymgynghori a chyfathrebu â sefydliadau, grwpiau a chymunedau a pham mae hynny'n bwysig
10. pwysigrwydd gwerthuso cynlluniau ymgysylltu â'r gymuned a'u heffeithiau
11. sut mae darparu tystiolaeth o ymgysylltu effeithiol â chymunedau ehangach a'i werthuso

## Ymddygiadau

1. Rydych yn cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau eu dealltwriaeth a'u hymrwymiad
2. Rydych yn dangos dealltwriaeth o faterion a all fod yn sensitif i'r grwpiau a'r cymunedau hyn a'r pryderon a all fod ganddynt, ac yn gweithio gyda nhw i'w goresgyn
3. Rydych yn adnabod y cyfleoedd a gyflwynir gan amrywiaeth pobl ac yn gosod gwerth ar y manteision a ddaw i'r sefydliad yn eu sgîl
4. Rydych yn creu ymdeimlad o ddiben cyffredin
5. Rydych yn sicrhau bod nodau ac amcanion y strategaeth ymgysylltu a'r cynllun wedi'u gwreiddio yn nodau ac amcanion eich sefydliad eich hun
6. Rydych yn dangos bod gennych ddealltwriaeth o anghenion, disgwyliadau a symbyliad pobl eraill, yn cymryd diddordeb byw yn eu pryderon, ac yn rheoli eu disgwyliadau
7. Rydych yn cael hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau
8. Rydych yn defnyddio arddulliau a dulliau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer gwahanol bobl a sefyllfaoedd
9. Rydych yn gwerthuso effaith eich gweithredoedd a'ch profiadau eich hun a rhai pobl eraill ac yn defnyddio hynny i lywio strategaethau a chamau gweithredu i'r dyfodol
10. Rydych yn creu cyfleoedd ar gyfer perthnasoedd gwerth ychwanegol

## Sgiliau

Cyfathrebu
Cyd-drafod
Ymgynghori
Cynllunio
Adolygu
Rhwydweithio
Dadansoddi
Monitro
Gwneud penderfyniadau
Blaenoriaethu
Dylanwadu a darbwyllo

## Cysylltiadau â SGC eraill